Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Faenol

Dyddiad yr arolygiad: 05/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin gweledigaeth gytûn o gymuned ddysgu Gymreig, hapus a ofalgar lle mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi i ffynnu. Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r staff yn dîm effeithiol ac angerddol sy'n cynnig profiadau cyfoethog mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae'r berthynas agos rhwng staff, disgyblion a rhieni, ynghyd â chysylltiadau cryf â chymuned Penrhosgarnedd, yn elfennau allweddol o lwyddiant yr ysgol. Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol y disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r defnydd naturiol o'r iaith Gymraeg gan staff a disgyblion. O oed cynnar, mae disgyblion yn dechrau siarad yn hyderus, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn defnyddio iaith aeddfed a chywir. Mae'r cwricwlwm yn eang ac mae'r profiadau dysgu yn cynnig lefel bwrpasol o her a chefnogaeth. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd bwriadus i gyfrannu eu syniadau i adeiladu cwricwlwm sy'n ennyn eu diddordeb a hybu eu hymroddiad yn llwyddiannus.Yn ogystal, mae athrawon yn sicrhau bod profiadau'n datblygu medrau disgyblion, gan gynnwys medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn gyson dros amser.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant sydd wedi'u sefydlu'n gadarn ac sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella lles disgyblion a datblygiad eu medrau dros amser. Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft drwy gynyddu defnydd y Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu, ac wrth feithrin ethos Cymraeg a Chymreig cadarn. Er bod capasiti arweinyddol yr ysgol wedi datblygu'n addas, nid yw rolau arwain ehangach wedi datblygu'n llawn hyd yma. Nid yw'r cyfrifoldebau arwain wedi eu dyrannu'n  ddigon clir ac nid yw arweinwyr ar draws bob lefel yn cyfrannu'n llawn at hybu gwelliannau cynaliadwy yn yr addysgu, profiadau dysgu a deilliannau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod ymroddgar ac yn eiriolwyr cefnogol dros yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa gyllidol ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau goruchwylio ariannol yn ofalus a chyfrifol. Yn ddiweddar, mae'r corff wedi dechrau ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â gweithgareddau gwerthuso ansawdd sy'n datblygu eu gallu i herio arweinwyr ar agweddau ar addysgu a dysgu. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n ddigon systematig at brosesau hunanwerthuso'r ysgol ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr yn hybu darpariaeth eang, greadigol a chytbwys sy'n cefnogi lles, medrau a datblygiad emosiynol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r cynorthwywyr addysgu yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu rhaglenni cefnogi llwyddiannus, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu

ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY).

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau rôl tîm arweinyddiaeth ehangach yr ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethol, i gyfrannu'n strategol at brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026